Swyddfa Gartref

DIFFINIAD TRAWSLYWDORAETHOL O DRAIS DOMESTIG

YMGYNGHORIAD

Rhagfyr 2011

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog 3

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn 4

1. Opsiwn 1 – mae diffiniad y llywodraeth o drais domestig yn parhau i fod yr un peth 6

2. Opsiwn 2 – mae diffiniad y llywodraeth o drais domestig yn cael ei addasu i gynnwys rheolaeth cymhellol 9

3. Opsiwn 3 – ymestyn diffiniad y llywodraeth o drais domestig i unigolion 16-17 oed ac
   Opsiwn 4 – mae diffiniad y llywodraeth o drais domestig yn cael ei ymestyn i rai dan 18 12

4. Gwybodaeth yr ymgynghoriad 22

5. Grwpiau a effeithir 24

6. Amserlenni 25

7. Gwybodaeth amdanoch chi 26

Rhagair yr Ysgrifennydd Cartref

Dylai pawb deimlo'n ddiogel o fewn eu cartrefi eu hunain. Ond i lawer gormod o fenywod yn y Deyrnas Unedig, mae'r cartref y lle mwyaf peryglus i fod mewn gwirionedd. Ar gyfartaledd, mae dwy fenyw yn cael eu llofruddio gan eu partner presennol neu gyn bartner pob wythnos[1]. Pob blwyddyn, mae oddeutu 1.2 miliwn o fenywod yn dioddef trais domestig. Bydd tua un o bob pedair menyw yn profi trais domestig yn ystod eu hoes[2], yn aml ar y cyd â blynyddoedd o gamdriniaeth seicolegol. Ni ddylai hyn ddigwydd ym Mhrydain heddiw. A dyna pam fy mod mor benderfynol i roi diwedd ar drais domestig.

Wrth i ni sefydlu ein gweledigaeth strategol – 'Galwad i Roi Diwedd ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched' – bydd ataliaeth yn allweddol i gyflawni'r uchelgais honno. Dim ond trwy gynnwys pob asiantaeth y gellir sicrhau ataliaeth effeithiol, gan gydweithio i nodau cyffredin a dealltwriaeth gyffredin. Dyma pam ein bod bellach yn ymgynghori ar y diffiniad o drais domestig y dylai pob asiantaeth a phob rhan o lywodraeth ddefnyddio.

Mae yna sawl agwedd o'r diffiniad y mae'r ymgynghoriad hwn yn ei ystyried.

Canfu Arolwg Troseddau Prydain bod menywod rhwng 16-24 oed a dynion 16-34 oed yn fwy tebygol o ddioddef camdriniaeth mewn perthynas nag unrhyw ystod oedran arall[3]. Dyna pam fod yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barnau ar p'un a ddylai'r diffiniad o gamdriniaeth ddomestig gynnwys dioddefwyr iau, yn cynnwys bechgyn.

Fe wyddom y gall camdriniaeth yn aml gynnwys rheolaeth cymhellol. Mae rheolaeth cymhellol yn batrwm cymhleth o gamdriniaeth yn defnyddio grym a rheolaeth seicolegol dros rywun arall – rheolaeth ariannol, cam-drin geiriol, ynysu cymdeithasol gorfodol. Gall y digwyddiadau hyn amrywio o ran difrifoldeb, ac fe ellir eu hailadrodd dros amser. Fodd bynnag, nid yw rheolaeth cymhellol wedi ei adlewyrchu yn niffiniad presennol y llywodraeth o drais domestig. Byddem yn croesawu barnau ar p'un a ddylid ei gynnwys.

Mae trais domestig yn dinistrio bywydau. Yn anffodus, mewn rhai achosion mae'n terfynu bywydau. Bydd yr ymgynghoriad yn ein helpu i gyflawni'r diffiniad cywir y cytunwyd arno o drais domestig er mwyn i bob asiantaeth allu cydweithio i drechu'r drosedd erchyll hon.



Theresa May
Ysgrifennydd Cartref

1,2 Smith, K. et al. (2011) Homicides, Firearm Offences and Intimate Violence 2009/10. Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref 01/11. Llundain: Y Swyddfa Gartref.

3 Smith, K. et al. (2011) Homicides, Firearm Offences and Intimate Violence 2009/10. Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref 01/11. Llundain: Y Swyddfa Gartref.

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

PAM YDYM NI'N YMGYNGHORI?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn allweddol i alluogi'r llywodraeth i gwmpasu ac archwilio yn llawn effeithiau posibl nifer o opsiynau i ehangu'r diffiniad o drais domestig.

CWMPAS YR YMGYNGHORIAD

Pwnc yr ymgynghoriad hwn:	Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barnau ar ddymunoldeb ehangu'r diffiniad trawslywdoraethol presennol o drais domestig. Yn ogystal, mae hefyd yn ceisio barnau ar p'un a yw'r diffiniad presennol yn cael ei weithredu'n gyson ledled llywodraeth ac a yw wedi ei ddeall gan ymarferwyr, dioddefwyr a chyflawnwyr.
Cwmpas yr ymgynghoriad hwn:	Mae hwn yn ymgynghoriad i geisio barnau partneriaid allweddol, a phartïon sydd wedi eu heffeithio'n uniongyrchol, yn cynnwys yr heddlu, ymarferwyr, adrannau eraill y llywodraeth a sefydliadau gyda diddordeb uniongyrchol mewn atal trais domestig. Rydym hefyd yn gwahodd sylwadau gan y cyhoedd. Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref. Bydd yr ymatebion i'r opsiynau a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad hwn yn cynorthwyo i hysbysu'r cynigion ac i'w hystyried ymhellach gan y llywodraeth.
Cwmpas daearyddol:	Cymru a Lloegr
Asesiad effaith:	Mae asesiad effaith cam ymgynghori ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref, ynghyd â'r ymgynghoriad hwn.

GWYBODAETH SYLFAENOL

Ar gyfer:	Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan sefydliadau yn cynrychioli dioddefwyr (benywaidd a gwrywaidd), gweithwyr rheng flaen, Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol, cydlynwyr Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC), cydlynwyr Trais yn erbyn Menywod a Merched, y rhai sy'n gweithio mewn llochesi, ymarferwyr iechyd, darparwyr tai, elusennau tai, awdurdodau lleol, gwasanaethau plant, cynrychiolwyr a chadeiryddion MARAC.
Hyd:	14 Rhagfyr 2011 hyd 30 Mawrth 2012
Ymholiadau ac Ymatebion:	Domestic Violence Definition Consultation 4th Floor, Fry Building 2 Marsham Street Llundain SW1P 4DF E-bost: DVdefinition@homeoffice.gsi.gov.uk

Sut arall i gymryd rhan:	Fe fydd yna ymarfer ymgynghori ar-lein. Cysylltwch â'r Swyddfa Gartref (fel uchod) os ydych angen gwybodaeth ar unrhyw fformat arall, megis Braille, print bras neu sain.
Wedi'r ymgynghoriad:	Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael eu gosod ar wefan y Swyddfa Gartref.
Cyrraedd y cam hwn:	Cyflwynwyd y diffiniad trawslywdoraethol o drais domestig yn 2004. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cael trafodaethau cychwynnol gyda'n partneriaid yn y sector wirfoddol a chymunedol yn ogystal â'r rhai yn y sector statudol i ddatblygu'r opsiynau hyn.
Ymgysylltiad blaenorol:	Ymgynghorwyd yn anffurfiol gyda phartneriaid allweddol wrth ddatblygu'r opsiynau hyn.

Mae'r llywodraeth yn ceisio barnau ar ddymunoldeb adolygu'r diffiniad o drais domestig.
Mae yna bedwar opsiwn i'w ystyried:

Opsiwn 1 – Mae diffiniad y llywodraeth o drais domestig yn parhau i fod yr un peth
Mae'r opsiwn hwn yn ceisio barnau ar a ddylai'r diffiniad trawslywdoraethol barhau i fod yr un peth neu a ddylid ei ehangu neu addasu? Yn ogystal rydym hefyd yn ceisio barnau ar a yw'r diffiniad yn cael ei gymhwyso'n gywir gan adrannau llywodraeth ac ymarferwyr rheng flaen.

Opsiwn 2 – Mae'r diffiniad o drais domestig yn cael ei addasu i gynnwys rheolaeth cymhellol.
Mae'r opsiwn hwn yn gofyn i chi am eich barn ar p'un a ddylai'r diffiniad trawslywdoraethol hefyd gynnwys y geiriad 'rheolaeth cymhellol'. Mae rheolaeth cymhellol yn batrwm cymhleth o gamdriniaeth yn defnyddio grym a rheolaeth seicolegol dros rywun arall – rheolaeth ariannol, cam-drin geiriol, ynysu cymdeithasol gorfodol.

Opsiwn 3 – Mae diffiniad y llywodraeth o drais domestig yn cael ei ymestyn i bawb sy'n 16-17 oed.
Mae'r diffiniad trawslywdoraethol presennol o drais domestig yn berthnasol i oedolion dros 18 oed. Mae'r opsiwn hwn yn ceisio eich barnau ar a ddylid ymestyn y diffiniad trawslywdoraethol i gynnwys rhai 16-17 oed.

Opsiwn 4 – Mae diffiniad y llywodraeth o drais domestig yn cael ei ymestyn i bawb sydd dan 18.
Mae'r diffiniad trawslywdoraethol presennol o drais domestig yn berthnasol i oedolion dros 18 oed. Mae'r opsiwn hwn yn ceisio eich barnau ar a ddylid ymestyn y diffiniad trawslywdoraethol i gynnwys pawb sydd dan 18 oed.

1. Opsiwn 1 – Mae diffiniad y llywodraeth o drais domestig yn parhau i fod yr un peth.

Yn 2004, fe gyflwynodd y llywodraeth ddiffiniad sengl o drais domestig, gan ddisodli'r diffiniadau gwahanol blaenorol oedd mewn defnydd ledled llywodraeth a'r sector cyhoeddus. Nid yw'r diffiniad yn ddiffiniad statudol. Fe'i defnyddir gan adrannau llywodraeth i hysbysu datblygiad polisi ac, er enghraifft, gan yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac Asiantaeth Ffiniau'r DU, i hysbysu dynodi achosion o drais domestig. Mae'r diffiniad presennol yn diffinio trais domestig fel:

> 'unrhyw ddigwyddiad neu ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth [seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol][4] rhwng oedolion sydd neu a fu'n bartneriaid agos neu'n aelodau teulu, waeth beth fo'u rhywedd neu rywioldeb'.

Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys yr hyn a elwir yn drais seiliedig ar 'urddas', llurguniad genitalia benywaidd (FGM) a phriodas dan orfod, ac mae'n glir nad yw dioddefwyr wedi eu cyfyngu i un rhyw neu grŵp ethnig. Diffinnir oedolyn fel unrhyw un sy'n 18 oed neu'n hŷn.

Rydym yn cydnabod y gellir cyflawni trais domestig gan deulu, aelodau teulu estynedig ac o fewn cymunedau ac y gall hyn ei wneud hyd yn oed yn anoddach i fod yn agored ynglŷn â'r gamdriniaeth.

Fe wyddom y gall diffiniadau gwahanol achosi problemau i ddioddefwyr gan ei bod yn bosibl y gellir eu cydnabod felly gan rai gwasanaethau ac nid gan eraill. Ein nod yw sicrhau bod gennym ddiffiniad cyson o drais domestig. Mae'r llywodraeth yn ceisio barnau ar p'un a yw'r diffiniad presennol o drais domestig yn gweithio ac y dylai barhau.

CWESTIYNAU

A ydych chi'n meddwl y dylai'r diffiniad trawslywdoraethol o drais domestig barhau i fod yr un peth?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod

Ychwanegwch unrhyw sylwadau i gefnogi eich barn:

4 Yn cydnabod FGM, priodas dan orfod a 'throseddau urddas'. Mae oedolyn yn unrhyw 18 oed neu hŷn ac mae aelodau o'r teulu yn: mam, tad, mab, merch, brawd, chwaer a thaid a nain; perthynas uniongyrchol, teulu yng nghyfraith neu'n llys deulu.

A ydych chi'n meddwl bod y diffiniad presennol o drais domestig yn cael ei weithredu'n gywir gan adrannau llywodraeth, Llywodraeth Leol ac ymarferwyr rheng flaen?

Ar gyfer pob opsiwn isod, dynodwch a ydych yn meddwl bod y sector / sefydliad yn gweithredu'r diffiniad o drais domestig yn gywir.

	Ydi, yn gweithredu'r diffiniad yn gywir	Na, ddim yn gweithredu'r diffiniad yn gywir	Ddim yn gwybod
Adrannau o'r llywodraeth	☐	☐	☐
Llywodraeth Leol	☐	☐	☐
Ymarferwyr rheng flaen	☐	☐	☐

Ychwanegwch unrhyw sylwadau i gefnogi eich barn:

A ydych chi'n meddwl bod y diffiniad presennol wedi ei ddeall gan ddioddefwyr, gweithredwyr ac ymarferwyr rheng flaen?

Ar gyfer pob opsiwn isod, dynodwch a ydych yn meddwl bod pob grŵp yn deall y diffiniad o drais domestig yn gywir, neu beidio. Ticiwch un opsiwn ar gyfer pob rhes.

	Ydynt, yn deall	**Na, heb ddeall**	**Ddim yn gwybod**
Dioddefwyr	☐	☐	☐
Cyflawnwyr	☐	☐	☐
Ymarferwyr rheng flaen	☐	☐	☐
Adrannau o'r llywodraeth	☐	☐	☐
Y cyhoedd	☐	☐	☐
Llywodraeth Leol	☐	☐	☐

Ychwanegwch unrhyw sylwadau i gefnogi eich barn:

2. Opsiwn 2 – Mae'r diffiniad o drais domestig yn cael ei addasu i gynnwys rheolaeth cymhellol.

Mae diffiniad y llywodraeth yn nodi trais domestig fel 'achosion o ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth.'

Mae gweinyddiaethau eraill wedi diffinio trais domestig mewn ffordd mwy eang. Mae Llywodraeth Cymru, er enghraifft, yn gweithio yn ôl y diffiniad canlynol ar hyn o bryd:

> Y disgrifiad gorau o Gam-drin yn y Cartref yw defnyddio trais neu gam-drin corfforol a/neu emosiynol, gan gynnwys tanseilio hunanhyder, trais rhywiol neu fygwth trais gan berson sydd, neu sydd wedi bod, mewn perthynas agos.
>
> Mae cam-drin yn y cartref yn gallu bod yn fwy na thrais corfforol fel y cyfryw. Mae'n gallu cynnwys cam-drin emosiynol hefyd, distrywio eiddo gŵr/gwraig neu bartner, ei hynysu oddi wrth ffrindiau, teulu neu ffynonellau posibl eraill o gefnogaeth, bygythiadau yn erbyn eraill gan gynnwys plant, rheoli eu gallu i fedru cael gafael ar arian, eitemau personol, bwyd, trafnidiaeth a'r ffôn, a stelcian.
>
> Mae hefyd yn gallu cynnwys trais a gyflawnir gan fab, merch neu unrhyw berson arall sydd â pherthynas agos neu berthynas waed gyda'r dioddefydd/goroesydd. Mae hefyd yn gallu cynnwys trais yn erbyn plant, neu drais y bydd plant yn dystion iddo. Rhaid cydnabod bod effeithiau niweidiol pellgyrhaeddol byw gyda cham-drin yn y cartref ar blant yn fater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Gellir cysylltu'r effeithiau â chyflawniad addysgol gwael, eithrio cymdeithasol ac ieuenctid yn troseddu, camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl a digartrefedd yn sgil rhedeg i ffwrdd.
>
> Nid digwyddiad "unigol" yw cam-drin yn y cartref; mae'n digwydd yn aml.

Yn aml mae trais domestig wedi ei ategu gan batrwm o reolaeth cymhellol. Mae rheolaeth cymhellol yn batrwm cymhleth o gamdriniaeth orgyffyrddol a mynych wedi ei gyflawni o fewn cyd-destun o bŵer a rheolaeth. Gellir ei ddisgrifio fel cyfres o ddigwyddiadau mynych all amrywio mewn difrifoldeb o lai i fwy. Gallai hyn gynnwys pethau fel rheoli cyllid, camdriniaeth lafar neu ynysu a all gynnwys rheolaeth dros bwy mae rhywun yn cael gweld neu ble gallant fynd. Mae rheolaeth seicolegol yn ffactor unigryw sy'n gosod trais domestig ar wahân i fathau eraill o droseddau. Gallai rheolaeth o'r fath hefyd gynnwys gorfodi rhywun i newid eu hymddygiad o ganlyniad i ofn.

Heb gynnwys rheolaeth cymhellol yn y diffiniad o drais domestig, gall fod achlysuron pan ystyrir trais domestig i fod yn ddigwyddiad ynysig. O ganlyniad, gall fod yn aneglur i ddioddefwyr beth sy'n cyfrif fel trais domestig – er enghraifft: gellir credu ei fod yn cynnwys trais corfforol yn unig. Fe wyddom mai anaml y bydd yr achos cyntaf a adroddir arno i'r heddlu neu asiantaethau eraill yr achos cyntaf i ddigwydd; yn aml bydd pobl wedi bod yn amodol i gamdriniaeth ar sawl achlysur cyn iddynt geisio cymorth.

CWESTIWN

Ydych chi'n credu y dylid cynnwys rheolaeth cymhellol yn y diffiniad o drais domestig?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Ddim yn gwybod

Ychwanegwch unrhyw sylwadau i gefnogi eich barn:

Ydych chi'n credu y byddai ehangu'r diffiniad yn ddefnyddiol i ddioddefwyr yn ogystal ag ymarferwyr rheng flaen?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Ddim yn gwybod

Ychwanegwch unrhyw sylwadau i gefnogi eich barn:

3. Opsiwn 3 – Ymestyn diffiniad y llywodraeth o drais domestig i unigolion 16-17 oed ac Opsiwn 4 – Mae diffiniad y llywodraeth o Drais Domestig yn cael ei ymestyn i bawb dan 18.

Yn 2008, datganodd adroddiad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref ar Drais Domestig, Priodi Dan Orfodaeth a Thrais Seiliedig ar Urddas (HBV):

> Fe glywsom am agweddau a chamdriniaeth bryderus rhwng pobl ifanc mewn perthnasau agos. Fodd bynnag, mae unigolion 16-18 oed wedi eu heithrio o ddiffiniad presennol y llywodraeth o Drais Domestig, ychydig iawn o ymchwil a fu ar anghenion dioddefwyr yn eu harddegau a chyflawnwyr trais domestig, ac ychydig iawn o gefnogaeth sydd i rai dan 18 mewn perthnasau ymosodol. Mae bodolaeth camdriniaeth mewn perthnasau arddegau yn pwysleisio ymhellach yr angen brys am addysg gynnar effeithiol ar drais domestig a pherthnasau. (Paragraff 76)
>
> Rydym yn croesawu'r ymchwil sy'n cael ei gyflawni gan Respect a'r NSPCC gyda'r Gronfa Loteri Fawr. Rydym yn argymell bod y llywodraeth yn ystyried addasu ei ddiffiniad o drais domestig i gynnwys unigolion dan 18 oed. (Paragraff 77)

Gellir dod o hyd i'r adroddiad llawn yn: http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200708/cmselect/cmhaff/263/263i.pdf

Cafwyd ymroddiad i ystyried y newid hwn yn y Cynllun Gweithredu Trais yn Erbyn Menywod a Merched, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2011:

> Yn dilyn argymhelliad gan adroddiad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref yn 2008, bydd y llywodraeth yn ymgynghori ar ddiffiniad diwygiedig o drais domestig i gynnwys dioddefwyr dan 18 oed.

Rydym yn pryderu ynglŷn â'r agweddau a adroddir ymysg rhai pobl ifanc parthed pa mor dderbyniol yw camdriniaeth. Ar hyn o bryd, mae unigolion dan 18 oed wedi eu heithrio o'r diffiniad o gamdriniaeth ddomestig.

Yn bresennol, byddai trais domestig a gyflawnwyd yn erbyn unigolyn dan 18 oed yn cael ei ystyried i fod yn gamdriniaeth o blentyn gan y rhan fwyaf o wasanaethau. Er y gallai hyn fod yn briodol ar gyfer plant sy'n profi camdriniaeth gan rieni neu deuluol, mae awgrym bod natur perthnasau arddegau yn aml yn debycach i berthnasau rhwng oedolion ac felly gellid eu hystyried fel estyniad o gamdriniaeth ddomestig oedolion.

Yn y diffiniad trawslywdoraethol presennol, rydym yn cyfeirio at 'bartner agos'; fodd bynnag, mae astudiaethau i amlder camdriniaeth mewn perthnasau arddegau yn defnyddio diffiniadau gwahanol ar gyfer perthnasau sy'n adlewyrchu'r labeli mwy llyfn, llai cyfyng a ddefnyddir i ddisgrifio perthnasau rhwng a gydag unigolion dan 18. Mae cyplau nad ydynt yn cydfyw yn fwy tebygol o fod mewn perthynas arddegau na pherthynas oedolyn a gall 'dêt' fod ar sawl ffurf. (Hickman, 2004[5], Lavoie et al.[6]).

Isod rydym wedi cyflwyno ambell enghraifft i arddangos pam y dylid archwilio'r mater hwn ymhellach.

CAMDRINIAETH PERTHYNAS ARDDEGAU

Canfu Arolwg Troseddau Prydain 2009/10 bod pobl ifanc yn fwy tebygol o ddioddef camdriniaeth gan bartner yn ystod y deng mlynedd diwethaf nag unrhyw ystod oedran arall[7]. Canfu BCS 2009/10 bod 12.7% o fenywod a 6.2% o ddynion 16-19 oed wedi profi rhyw fath o drais domestig yn y flwyddyn ddiwethaf[8] (Smith et al, 2011[9]). Mae tystiolaeth storïol hefyd wedi dangos bod yna lefelau pryderus o uchel o dderbyn camdriniaeth mewn perthnasau arddegau.[10]

5 Hickman, M. (2004) Dating violence among adolescents: prevalence, gender distribution, and prevention program effectiveness. Trauma Violence Abuse. 2004 Ebr;5(2):123-42.

6 Lavoie, Lavoie, F., Robitaille, L. a Hebert, M. (2000), 'Teen Dating Relationship and Aggression: An Exploratory Study', Violence Against Women, 6, 6.

7 Holodd Arolwg Troseddau Prydain 2009/10 22,000 o bobl oedd rhwng 16 a 59 oed yng Nghymru a Lloegr gwestiynau ar drais agos trwy fodwl i'w gwblhau gan yr unigolyn. Dangosodd amcangyfrifon o'r arolwg hwn bod menywod rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol o fod wedi dioddef camdriniaeth ddomestig yn y flwyddyn ddiwethaf o gymharu â grwpiau oedran eraill. Roedd yr arolwg hefyd yn dangos bod dynion rhwng 16 a 34 oed yn fwy tebygol o ddioddef camdriniaeth ddomestig na dynion hŷn.

8 Wrth gulhau i gamdriniaeth partner, mae'r gyfradd hon yn is ar y cyfan, ond mae'r ystod oedran 16-19 yn parhau i fod y grŵp dan risg mwyaf i fenywod, 7.3% o gymharu â 4.6%.

9 Smith, K. (gol), Coleman, K, Eder, S a Hall, P (2011). Homicides, firearm offences and intimate violence 2009/10 (Rhifyn atodol 2 i Crime in England and Wales 2009/10 Ail Argraffiad). Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref 01/11.

10 Gwybodaeth o ymgyrch camdriniaeth perthynas arddegau'r Swyddfa Gartref, 2011

Mae'n bwysig ystyried y gall pobl fod yn briod yn 16 oed yng Nghymru a Lloegr, ar yr amod bod ganddynt ganiatâd gan eu rhieni neu warchodwyr, ac mae nifer o blant yn eu harddegau sydd dan 18 oed hefyd yn rhieni.

Yn 2009, cyflawnodd yr NSPCC ymchwil gyda phobl ifanc 13-17 oed mewn addysg prif ffrwd oedd yn archwilio eu profiadau o ffurfiau corfforol, emosiynol a rhywiol o gamdriniaeth yn eu perthynas gyda phartner (Barter et al, 2009[11]). Canfu'r ymchwil bod:

- 25% o ferched (yr un gyfran â menywod sy'n oedolion) a 18% o fechgyn wedi profi rhyw fath o gamdriniaeth gorfforol;
- 75% o ferched a 50% o fechgyn wedi adrodd rhyw fath o gamdriniaeth emosiynol; a
- 33% o ferched ac 16% o fechgyn wedi adrodd rhyw fath o gamdriniaeth rywiol.

Yn ogystal, roedd canlyniadau yn dangos bod cael partner hŷn ac yn benodol partner 'llawer hŷn' yn ffactor risg arwyddocaol i ferched. Ar y cyfan, roed tri chwarter y merched a holwyd oedd â phartner 'llawer hŷn' (a ddiffiniwyd gan y merched oedd yn cymryd rhan fel mwy na 2 flynedd yn hŷn) wedi profi rhyw fath o gamdriniaeth gorfforol.

Edrychodd ail adroddiad llai gan yr NSPCC (Wood et al, 2011[12]) ar drais mewn perthnasau agos ymysg rhai yn eu harddegau difreintiedig nad ydynt mewn addysg prif ffrwd. Er nad yw'r astudiaeth yn honni ei fod yn cynrychioli poblogaeth gyfan y Deyrnas Unedig.

Dywedodd mwy na hanner y merched a gyflenwodd wybodaeth yn yr astudiaeth eu bod wedi bod mewn perthynas ymosodol rywiol cyn eu bod yn 18 oed ac fe adroddodd dros hanner y merched eu bod wedi dioddef camdriniaeth gorfforol yn o leiaf un o'u perthnasau agos.

Dywedodd chwarter y bechgyn a ymatebodd eu bod wedi bod yn canlyn gyda phartneriaid oedd yn gorfforol ymosodol.

Fe wyddom fod yna stigma o ran y mater o gamdriniaeth mewn perthnasau arddegau. Gall pobl ifanc deimlo nad yw oedolion yn eu hystyried o ddifrif, ac mae ymchwil yn awgrymu y gall oedolion fychanu camdriniaeth neu leihau effeithiau camdriniaeth emosiynol oherwydd diffyg niwed gweledol (Barter, 2009[13]). Mae ymchwil wedi dangos bod pobl ifanc yn llawer mwy tebygol o ddatgelu materion camdriniaeth mewn perthynas i gyfaill neu gyfoed nag i riant neu weithiwr cymdeithasol (Makepeace, 1981; Molidor et al, 2000; Barter et al 2009[14]).

Cafodd ymgyrch camdriniaeth mewn perthynas arddegau y llywodraeth ei hail-lansio yn ddiweddar gan y Swyddfa Gartref. Roedd yr ymgyrch yn rhedeg o Fedi hyd Dachwedd 2011 ac mae'n anelu i atal rhai yn eu harddegau rhag bod yn ddioddefwyr a chyflawnwyr perthnasau ymosodol. Mae'r ymgyrch yn annog rhai yn eu harddegau i ailystyried eu barnau o berthynas ble ceir ymddygiad treisgar, cam-drin neu reoli ac yn eu cyfeirio at lefydd i dderbyn cymorth a chyngor.

Mae'r wefan 'This is Abuse' yn rhoi cyfle i rai yn eu harddegau drafod y materion gyda'u cyfoedion a chael mynediad at gefnogaeth a chyngor gan drydydd parti. Cynhaliom fforymau trafodaeth ar-lein hefyd yn ystod yr ymgyrch gyda chefnogaeth ein partneriaid megis Against Violence and Abuse, Cymorth i Fenywod, Respect – Llinell gynghori Dynion a Broken Rainbow a Beat Bullying.

Hyd yn hyn mae'r wefan This is Abuse wedi derbyn 151,998 o Ymweliadau.

11 Barter, C., McCarry, M, Berridge, D. ac Evans, K. (2009). 'Partner exploitation and violence in teenage intimate relationships', NSPCC Medi 2009. Bu 1,353 o bobl ifanc rhwng 13 ac 17 oed o Gymru, Lloegr a'r Alban yn cymryd rhan yn yr astudiaeth ymchwil ac fe gymrodd 91 o bobl ifanc ran mewn cyfweliadau manwl.

12 Wood, M., Barter, C., Berridge, D. (2011) 'Standing on my own two feet': Disadvantaged Teenagers, Intimate Partner Violence and Coercive Control. NSPCC, Medi 2011. Cyfweliadau gydag 82 o fechgyn a merched 13-18 oed o un ddinas.

13 Barter, C. (2009) 'In the name of love: partners abuse andviolence in teenage relationships' British journal of social work; 39: 211 – 233

14 Makepeace, M. J. (1981) Courtship Violence Among College Students. Family Relations. Cyfrol 30, Rhif 1. Ion, 1981.; Molidor, C., Tolman, R. M. a Kober, J. (2000) 'Gender and contextual factors in adolescent dating violence', Prevention Research, 7(1), pp. 1–4.; Barter, C., McCarry, M, Berridge, D. ac Evans, K. (2009). 'Partner exploitation and violence in teenage intimate relationships', NSPCC Medi 2009

PRIODAS DAN ORFOD

Dengys ystadegau o'r Uned Priodas Dan Orfod (FMU) o Ionawr i Ragfyr 2010:

- derbyniwyd dros 1,700 o achosion ble rhoddodd yr FMU gyngor neu gefnogaeth yn ymwneud ag achos posibl o briodas dan orfod;
- roedd 35% o'r achosion cymorth yn cynnwys plant dan oed (y rhai dan 18) ac o'r nifer hynny roedd bron i 14% yn ymwneud â phlant dan oed oedd yn 16 oed neu iau;
- ble roedd yr oed yn wyddys, roedd y dioddefydd hynaf yn 73 a'r ieuengaf yn 12.

Mae priodas dan orfod yn briodas ble nad yw un neu'r ddau gymar (neu, yn achos rhai oedolion bregus, nid ydynt yn gallu) yn cydsynio i briodi ond yn cael eu gorfodi i wneud. Mae'n allweddol ffocysu ar ddewis - dylai unigolion allu dewis yn rhydd pwy maent yn priodi neu beidio.

Mae priodas dan orfod yn ymarfer cudd, ble oherwydd ei natur nid yw graddfa lawn y mater yn hysbys. Gall ddigwydd i ddynion a menywod, er bod y rhan fwyaf o achosion yn ymwneud â menywod ifanc a merched rhwng 16 a 25 oed.[15]

Darparodd yr Uned gefnogaeth uniongyrchol i ddioddefwyr mewn dros 400 o achosion yn y Deyrnas Unedig ac i wladolion Prydeinig dramor. Roedd tua thraean o achosion cymorth yn ymwneud â phlentyn dan oed (dan 18 oed). Roedd y cymorth a ddarparwyd yn amrywio o gyngor syml, i gynorthwyo dioddefydd i atal eu cymar dieisiau rhag symud i'r Deyrnas Unedig (achosion 'noddwr anfodlon'), ac, mewn achosion eithafol, achub dioddefwyr oedd yn cael eu cadw dramor yn groes i'w dymuniad.

MEWNFUDIAD

Parthed mewnfudiad, ni fydd Asiantaeth Ffiniau'r DU yn rhoi caniatâd mynediad neu i aros yn y Deyrnas Unedig i unigolyn sy'n gwneud cais fel cymar/partner os fyddant neu eu partner sydd wedi setlo dan 18 oed ar y dyddiad pan fyddant yn cyrraedd y Deyrnas Unedig neu'r dyddiad pan roddir caniatâd mynediad neu i aros. Mae yna ddarpariaethau yn y Rheolau Mewnfudiad (paragraff 289A), ar gyfer dioddefwyr trais domestig sydd wedi cyrraedd fel cymar/partner unigolyn wedi setlo i wneud cais am statws wedi setlo (caniatâd amhenodol i aros) os ydynt yn dioddef camdriniaeth ddomestig.

LLURGUNIAD GENITALIA BENYWAIDD (FGM)

Mae llurguniad genitalia benywaidd yn driniaethau ble mae organau genitalia benywaidd allanol yn cael eu tynnu yn gyfan gwbl neu'n rhannol am resymau anfeddygol. Mae cyflawni FGM yn drosedd yn y Deyrnas Unedig. Mae hefyd yn drosedd i wladolion y Deyrnas Unedig neu breswylwyr parhaol yn y Deyrnas Unedig i gyflawni llurguniad genitalia benywaidd dramor, neu i gynorthwyo, gefnogi, gynghori neu gaffael cyflawni llurguniad genitalia benywaidd dramor, hyd yn oed mewn gwledydd ble mae'r arfer yn gyfreithiol.

Mae llurguniad genitalia benywaidd yn ffurf gydnabyddedig o gamdriniaeth ddomestig a gellir hefyd ei gydnabod fel math o gamdriniaeth plentyn (yn ddibynnol ar oed y dioddefydd). Mae yna ganlyniadau difrifol i iechyd o'r driniaeth, yn cynnwys risg uchel o heintiad, anabledd hirdymor, problemau difrifol mewn beichiogrwydd a genedigaeth, a marwolaeth.

Amcangyfrifir bod dros 20,000 o ferched dan 15 oed yng Nghymru a Lloegr dan risg posibl o lurguniad genitalia benywaidd (Dorkenoo et al, 2007)[16].

Mae'r oed pan fydd merched yn derbyn triniaeth llurguniad genitalia benywaidd yn amrywio'n sylweddol yn ôl cymuned. Gellir cyflawni'r driniaeth pan fydd y ferch yn newydd-anedig, yn ystod plentyndod neu lasoed, cyn priodi neu yn ystod y beichiogrwydd cyntaf. Fodd bynnag, Credir bod y rhan fwyaf o achosion o lurguniad genitalia benywaidd yn digwydd rhwng 5 ac 8 oed, ac felly mae merched o fewn yr ystod oedran hwnnw dan risg uwch (Dorkenoo et al, 2007)[16].

15 Ystadegau gan yr Uned Priodas Dan Orfod

16 Dorkenoo, E., Morison, L., Macfarlane, A. (2007) 'A Statistical Study to Estimate the Prevalence of Female Genital Mutilation in England and Wales'. Forward UK, 2007. Mae amcangyfrifon yn seiliedig ar ddata cyfrifiad 2001.

PLANT A THRAIS DOMESTIG

Mae trais domestig yn effeithio ar oedolion a phlant yn y teulu. Mae 200,000 o blant (1.8%) yn Lloegr yn byw mewn cartrefi ble mae yna risg uchel hysbys o achosion o gamdriniaeth neu drais domestig (dyfynnwyd yn Laming, 2009)[17]. Gall amlygiad parhaus ac/neu reolaidd i drais domestig gael effaith ddifrifol ar ddiogelwch a lles plant, er gwaethaf ymdrechion rhieni i'w hamddiffyn. Canfu dadansoddiad o Arolygon Achosion Difrifol dystiolaeth o drais domestig yn y gorffennol neu bresennol mewn dros hanner (53%) achosion (Brandon et al 2009)[18]. Yn ogystal, fe wyddom fod plant sy'n byw mewn cartref ble mae trais domestig yn digwydd yn aml yn fwy tebygol o fod yn amodol i gamdriniaeth eu hunain. Dengys ymchwil bod y partner ymosodol mewn rhwng 30% a 66% o achosion o drais domestig hefyd yn cam-drin plant yn y teulu yn uniongyrchol (Edleson, 1999[19]; Humphreys a Thiara, 2002[20]). Yn ogystal, mae trais domestig yn aml yn dechrau neu'n cynyddu yn ystod beichiogrwydd. Gall unrhyw drais yn ystod beichiogrwydd effeithio nid yn unig y fam, ond hefyd y plentyn heb ei eni. Yn wir, fe wyddom fod trais domestig yn achos mawr o golli plentyn a geni'n farw (Mezey, 1997[21]; Sefydliad Iechyd y Byd, 2005[22]).

CYFRIFOLDEBAU STATUDOL I RAI DAN 16 OED

Mae Byrddau Lleol Diogelu Plant (BLlDP) yn darparu canllaw a rheoliadau lleol yn ymwneud â phlant a nodwyd i fod 'dan risg o niwed arwyddocaol'.

Mae'n ddyletswydd ar Awdurdod Lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn eu hardal sydd mewn angen (Adran 17, Deddf Plant 1989) ac mae'n ddyletswydd arnynt i ymchwilio ble ceir achos rhesymol i amau bod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed arwyddocaol (Adran 47, Deddf Plant 1989).

Os yw plentyn (rhywun dan 18) yn dioddef niwed arwyddocaol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod, byddant o fewn y fframwaith diogelu plant a chyfrifoldebau awdurdod lleol, a fyddai o fewn cylch gorchwyl y BLlDP.

Delir â phlant sydd dan risg o drais domestig yn 'Working Together to Safeguard Children – A guide to inter-agency working to safeguard and promote the welfare of children[23]', sy'n cydnabod yr angen i weithwyr proffesiynol ddiogelu plant rhag niwed yn deillio o gamdriniaeth neu drais yn eu perthnasau eu hunain.

17 Lord Laming (2009). The Protection of Children in England: A Progress Report, HC 330, Mawrth 2009.

18 Brandon, M., Bailey, S., Belderson, P., Gardner, R., Sidebottom, P., Dodsworth, J., Warren, C. a Black,J. (2009) Understanding Serious Case Reviews and their Impact: Dadansoddiad Eilflwydd o Adolygiadau Achosion Difrifol 2005-7. Llundain: Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.

19 Edleson, J.L. The overlap between child maltreatment and woman battering. Trais Yn Erbyn Menywod. 5 (2): 134-154, 1999 Chwe.

20 Humphreys, C. a Thiara, T. (2002) Routes to Safety: Protection Issues Facing Abused Women and Children and the Role of Outreach Services, Bryste: Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr

21 Mezey, G (1997) Domestic Violence in Pregnancy, yn Bewley, S., Friend, J., a Mezey, G: (gol.) Violence against women, Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr, 1997, dyfynnwyd gan Gymorth i Fenywod: http://womensaid.org.uk/page.asp?section=000100010010000400020003.

22 Garcia-Moreno, C., Jansen, H., Ellsberg, M., Heise, L. Watts, C. (2005). Astudiaeth Aml wlad gan Sefydliad Iechyd y Byd ar Iechyd Menywod a Thrais Domestig yn erbyn Menywod. Canlyniadau cychwynnol ar amlder, deilliannau iechyd ac ymatebion menywod. Sefydliad Iechyd y Byd, 2005. At

23 Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, (2010). Working Together to Safeguard Children – A guide to inter-agency working to safeguard and promote the welfare of children. Llywodraeth EM, Mawrth 2010.

CWESTIYNAU

A ydych chi'n credu y dylid ehangu diffiniad y llywodraeth o drais domestig i gynnwys unigolion 16-17 oed?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod

Sylwadau

A ddylid ehangu diffiniad y llywodraeth o drais domestig i gynnwys pawb sydd dan 18?

☐ Dylid

☐ Na ddylid

☐ Ddim yn gwybod

Sylwadau

EFFEITHIAU AR WASANAETHAU

Rydym yn cydnabod y gallai lleihau meini prawf oedran y diffiniad gael effaith ar wasanaethau trais domestig gan y gall fod angen iddynt ddarparu ar gyfer grwpiau oedran oedd wedi eu heithrio yn flaenorol. Cydnabyddir ei bod yn anochel y bydd gorgyffwrdd mewn rhai gwasanaethau – er enghraifft, mae gwasanaethau trais rhywiol a domestig eisoes yn delio ag achosion o gamdriniaeth perthynas sy'n cynnwys trais rhywiol. Yn ogystal, gall fod materion yn ymwneud ag ymelwa ar blant o fewn sefyllfa trais domestig. Roedd hefyd yn cydnabod bod naill barti mewn perthynas yn aml yn delio â materion lluosog, neu o fewn teuluoedd, ble mae trais domestig yn digwydd, a allai gwmpasu materion megis cam-drin sylweddau neu broblemau iechyd meddwl. Mae hyn yn codi'r cwestiwn ynglŷn â sut y gall asiantaethau lleol gydweithio i sicrhau'r ymateb mwyaf priodol ar gyfer y person ifanc dan sylw.

Un enghraifft o bolisi trais domestig oed gynhwysol yw un Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) nad yw'n benodol i oed ac sy'n datgan:

> Oherwydd bod angen rhoi sylw difrifol i drais domestig yn erbyn pobl o bob oed, ac oherwydd bod materion diogelwch dioddefwyr, plant a phobl ifanc ac atebolrwydd yr amddiffynnydd yn bwysig i ni, byddwn hefyd yn gweithredu ein polisi trais domestig wrth ddelio â throseddau sy'n digwydd mewn cyd-destun domestig yn ymwneud â dioddefwyr a chamdrinwyr waeth beth yw eu hoed.

Mae gan y CPS bolisi trais domestig a chanllaw penodol i erlynwyr ers 2001. Cafodd ei addasu a'i gyhoeddi ym Mawrth 2009, ynghyd â thaflen wedi ei chynllunio yn benodol i ddioddefwyr a thystion.

Mae'r CPS hefyd yn cefnogi rhannu gwybodaeth ac ymarfer effeithiol yn y system gyfiawnder droseddol trwy rwydwaith o gydlynwyr trais yn erbyn menywod arbenigol yn gweithredu polisi'r CPS yn lleol; cefnogi erlynwyr arbenigol ble fo'n berthnasol; a gweithio gyda gwasanaethau trais yn erbyn menywod a merched lleol.

Yn Medi 2011, fe arolygodd y CPS achosion trais domestig a erlynwyd yn 2010-11 yn cynnwys diffynnydd a dioddefydd dan 18 oed, gan ganolbwyntio ar achosion o gamdriniaeth gan bartner. Trafodwyd canlyniadau'r arolwg a gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol gyda rhanddeiliaid yn Rhagfyr.

GWASANAETHAU CEFNOGAETH SYDD AR GAEL I DDIODDEFWYR A CHYFLAWNWYR DAN 18 OED

MANNAU LLOCHES

Ar hyn o bryd, dim ond llety i rai sy'n 18 oed neu hŷn all llochesi gynnig ac fe all hyn fod yn rhwystr i'r rhai sy'n ceisio gadael eu cartref presennol er mwyn dianc camdriniaeth.

Daw atgyfeiriadau i lochesi o sawl ffynhonnell; gallai hyn gynnwys hunangyfeirio (ble mae rhywun yn cysylltu'n uniongyrchol â gwasanaeth), atgyfeiriad gan asiantaeth statudol neu gan sefydliad gwirfoddol. Gan mai dim ond i'r rhai sy'n 18 oed neu hŷn y mae'r diffiniad presennol o drais domestig yn berthnasol, ni ellir cydnabod unigolyn dan 18 fel dioddefydd, sy'n golygu na ellir cael atgyfeiriad at wasanaethau arbenigol trais domestig. Yn ogystal, efallai na fydd costau rhoi llety i rai dan 18 mewn tai arbenigol megis lloches yn cael ei dalu gan awdurdodau lleol gan y byddant yn cael eu hystyried i fod tu allan i'r cylch gorchwyl ar gyfer gwasanaethau trais domestig.

ATGYFEIRIADAU I WASANAETHAU CYNADLEDDAU ASESU RISG AML-ASIANTAETH (MARAC) A CHYNGHORWYR TRAIS DOMESTIG ANNIBYNNOL (IDVA)

Mae'r MARAC yn gyfarfod amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch dioddefwyr trais domestig risg uchel. Mae'r cynadleddau yn rhannu gwybodaeth i greu darlun o sefyllfa'r dioddefydd ac yn dyfeisio cynllun rheoli risg ar y cyd i leihau'r niwed y mae dioddefwyr a'u teuluoedd yn wynebu.

Bydd yr asiantaethau sy'n mynychu cynadleddau yn amrywio ond maent yn debygol o gynnwys, er enghraifft: yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf, Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) sy'n cynrychioli 'llais' y dioddefydd yn y cyfarfod, Gwasanaethau Plant, iechyd a thai. Mae cynadleddau wedi eu sefydlu bellach mewn tua 250 o ardaloedd.

Mae'r canllaw ar gyfer atgyfeirio i MARAC yn datgan mewn achosion yn ymwneud ag unigolion 16-17 oed, bydd angen arfer doethineb proffesiynol i benderfynu ai MARAC neu lwybr diogelu yw'r mwyaf priodol. Mae gwasanaethau IDVA ar gael yn swyddogol i rai sy'n 18 oed neu hŷn, fodd bynnag, gellir hefyd cyfeirio achosion yn ymwneud ag unigolion 16-17 oed at y gwasanaethau hyn mewn rhai achosion.

Mae ymchwil presennol yn dynodi bod gan gynadleddau (ac IDVAs) botensial i wella diogelwch dioddefwyr a lleihau ailadrodd erledigaeth (Steel et al, 2011[24]).

Ar gydnabod angen lleol am wasanaethau i bobl ifanc, mae rhai awdurdodau lleol eisoes wedi dechrau cyfeirio unigolion 16-17 oed i MARAC ac mae rhai ardaloedd hefyd wedi datblygu gwasanaethau IDVA arbenigol i blant sy'n iau nag 16 oed.

ASTUDIAETH ACHOS

Gwasanaethau trais domestig presennol i bobl ifanc yn Blackpool:

Mae Blackpool yn darparu ystod o wasanaethau trais domestig i rai dan 18 oed, gyda rhai ohonynt yn cael eu comisiynu gan yr awdurdod lleol. Ymhlith y rhain mae:

- Sefydlwyd y Gwasanaeth IDVA i Blant i gefnogi plant a phobl ifanc dan 21 oed sydd wedi eu heffeithio gan drais domestig, naill ai yn uniongyrchol yn eu perthnasau eu hunain neu trwy drais domestig yn eu teulu. Mae'r gefnogaeth a gynigir yn ffocysu ar y plentyn ac wedi ei gyfarwyddo gan blant a phobl ifanc, mewn lleoliad o'u dewis nhw megis mewn ysgol neu yn y gofod y plentyn – a elwir The Den. Mae'r Gwasanaeth IDVA i Blant yn darparu sesiynau galw i mewn wythnosol yn holl Ysgolion Uwchradd Blackpool ar gyfer hunangyfeirio. Mae pobl ifanc sydd wedi eu heffeithio gan gamdriniaeth yn eu perthnasau eu hunain yn mynychu'r sesiynau hyn yn ddyddiol. Mae'r ystod oedran rhwng 13 ac 16 oed ac mae'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer merched a bechgyn sy'n ddioddefwyr a chyflawnwyr. Mae'r Gwasanaeth yn cyd-fynd â'r Gwasanaeth IDVA dan sefydliad mantell, elusen gofrestredig, Blackpool Advocacy. Yn ystod 2010/11 fe gefnogodd y gwasanaeth 1,200 o bobl ifanc.
- Gan weithio mewn partneriaeth â'r NSPCC, mae'r Tîm Camdriniaeth Ddomestig yn cyflawni hyfforddiant INSET i holl staff Ysgolion Cynradd parthed Trais Domestig. Cynhelir grwpiau plant yn yr ysgol cyn ac yna yn dilyn yr hyfforddiant i staff. Mae achosion a adroddwyd i'r heddlu, ble mae plant yn y teulu, wedi eu rhannu ag ysgolion ers 3 mlynedd bellach.
- Mae Cymorth i Fenywod Fylde Coast yn darparu gwaith cefnogaeth o fewn Cefnogaeth Llochesi ac Allgymorth ledled yr ardal. Mae yna Raglen Adfer sy'n cael ei darparu ledled yr ystod oedran, i gefnogi menywod a merched.
- Mae'r Tîm Catalydd, a sefydlwyd 2 flynedd yn ôl, yn ymateb i achosion cychwynnol o drais domestig a adroddwyd arnynt i'r Heddlu. Mae'r tîm yn amlasiantaethol ac wedi ei gydleoli, yn cynnwys yr Heddlu, Gweithwyr Cymdeithasol Plant ac Ymarferydd Diogelu Iechyd. Ceir cysylltiadau agos rhwng y tîm hwn a'r Gwasanaeth Prawf, Gwasanaethau Cam-drin Sylweddau a Thai ac ati.
- Mae Uwch Weithiwr Allgymorth y Ganolfan Blant ar gyfer Trais Domestig yn darparu cyswllt allweddol gyda'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a dyma'r llwybr ar gyfer MARAC a rhannu gwybodaeth. Mae'r gweithiwr hefyd yn delio â llwyth gwaith Trais domestig ac achosion cysylltiedig.
- Os yn briodol, ac yn ôl yr achos unigol, gellir rheoli unigolion 16 ac 17 oed trwy'r broses MARAC. Yn ystod 2010/11, cefnogwyd 756 o blant trwy MARAC fel rhan o'r teulu, cefnogwyd 20 o unigolion 16-17 oed fel dioddefwyr a thri fel cyflawnwyr.

24 Steel, N., Blakeborough, L., a Nicholas,S. (2011). Supporting high-risk victims of domestic violence: a review of Multi-Agency Risk Assessment Conferences. Adroddiad ymchwil y Swyddfa Gartref 55. Mae'r adroddiad yn cydnabod y byddai tystiolaeth fwy cadarn yn cryfhau'r casgliadau hyn gan fod yr ymchwil presennol yn gymharol wan yn fethodolegol.

Pe byddai'r diffiniad yn cael ei ehangu, beth fyddai'r effeithiau tebygol ar wasanaethau?

Sut all gwasanaethau i rai dan 18 gydweithio i ddarparu'n well ar gyfer dioddefwyr gyda phroblemau lluosog?

Nodwch unrhyw syniadau neu awgrymiadau y gallech gael ar gyfer sicrhau arbedion neu fuddiannau eraill parthed y pedwar opsiwn a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad hwn?

4. Gwybodaeth ymgynghori

CYFRINACHEDD AC YMWADIAD

Gellir trosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch atom at gydweithwyr o fewn y Swyddfa Gartref, y llywodraeth neu asiantaethau cysylltiedig. Gall unrhyw wybodaeth a ddarparir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, fod yn amodol i'w gyhoeddi neu ddatgelu yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 [FOIA], y Ddeddf Diogelu Data 1998 [DPA] a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i wybodaeth arall a ddarparwch aros yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol fod yna Gôd Ymarfer dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod yr wybodaeth yr ydych wedi darparu i ni yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn cymryd i ystyriaeth eich esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Adran.

Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a, gan amlaf, bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydedd blaid.

COD YMARFER Y LLYWODRAETH AR YMGYNGHORI

Mae'r Ymgynghoriad hwn yn dilyn y Cod Ymarfer ar Ymgynghori – y cyflwynir y meini prawf ar ei gyfer isod:

Maen prawf 1 – Pryd i ymgynghori
Dylid ymgynghori'n ffurfiol yn ystod cam pan fydd cwmpas i ddylanwadu ar y deilliant polisi.

Maen prawf 2 – Hyd ymarferion ymgynghori
Dylai ymgynghoriadau barhau am o leiaf 12 wythnos fel arfer, gan roi ystyriaeth i gyfnodau hirach o amser ble fo'n ddichonadwy a synhwyrol.

Maen Prawf 3 – Eglurder cwmpas ac effaith
Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir am y broses ymgynghori, yr hyn sy'n cael ei argymell, y cwmpas i ddylanwadu a chostau a buddiannau disgwyliedig y cynigion.

Maen prawf 4 – Hygyrchedd ymarferion ymgynghori
Dylid cynllunio ymarferion ymgynghori i fod yn hygyrch i, ac wedi eu targedu'n amlwg at, y bobl y bwriedir eu cyrraedd.

Maen Prawf 5 – Baich ymgynghori
Mae cadw baich ymgynghori i isafswm yn hanfodol i sicrhau ymgynghoriadau effeithiol a chefnogaeth ymgyngoreion i'r broses.

Maen prawf 6 – Ymatebrwydd ymarferion ymgynghori
Dylid dadansoddi ymatebion ymgynghori yn ofalus a darparu adborth eglur i gyfranogwyr yn dilyn yr ymgynghoriad.

Maen prawf 7 – Gallu i ymgynghori
Dylai swyddogion sy'n rheoli ymgynghoriadau geisio arweiniad ar sut i gynnal ymarfer ymgynghori effeithiol a rhannu'r hyn a ddysgant o'r profiad.

Mae'r Cod Ymarfer ar Ymgynghori llawn ar gael yn: http://www.bis.gov.uk/policies/better-regulation/consultation-guidance

CYDLYNYDD YR YMGYNGHORIAD

Os oes gennych gŵyn neu sylw i'w roi ynglŷn ag ymagwedd y Swyddfa Gartref i ymgynghori, dylech gysylltu â Chydlynydd Ymgynghori'r Swyddfa Gartref, Adam McArdle. **PEIDIWCH** ag anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn at Adam McArdle. Mae'r Cydlynydd yn gweithio i hyrwyddo safonau arfer gorau a osodwyd gan y Cod Ymarfer, yn cynghori timau polisi ar sut i gyflawni ymgynghoriadau ac yn ymchwilio cwynion a wnaed yn erbyn y Swyddfa Gartref. Nid yw'n prosesu'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Gellir anfon e-bost at y Cydlynydd yn: Adam.McArdle2@homeoffice.gsi.gov.uk neu gallwch ysgrifennu ato yn:

Adam McArdle,
Cydlynydd yr Ymgynghoriad
Y Swyddfa Gartref
Performance and Delivery Unit
Better Regulation Team
3rd Floor Seacole
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

5. Grwpiau sydd wedi eu heffeithio gan yr ymgynghoriad hwn

Yn ystod datblygiad cychwynnol yr ymgynghoriad hwn, mae'r Swyddfa Gartref wedi rhoi ystyriaeth haeddiannol i'r ddyletswydd cydraddoldeb. Byddwn yn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd trwy'r ymgynghoriad hwn i ddatblygu cynigion polisi terfynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil – mae hyn yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd, cred neu ddiffyg cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Rydym wedi nodi y gall effeithiau ddigwydd parthed oed a rhyw os yw'r opsiynau i leihau oedran y diffiniad presennol o drais domestig yn cael eu datblygu, gan y bydd unigolion dan 18 oed yn cael eu cynnwys yn y diffiniad. Mae'r diffiniad o drais domestig yn anwybyddu rhyw, ond yn ystadegol mae menywod yn amlach yn ddioddefwyr na dynion, ac mae hyn wedi ei nodi fel effaith bosibl ar ryw.

Dangosodd Arolwg Troseddau Prydain 2010/11 bod saith y cant o fenywod a phump y cant o ddynion wedi adrodd iddynt brofi unrhyw drais domestig yn 2010/11.

Canfu Arolwg Troseddau Prydain 2009/10 bod pobl ifanc yn fwy tebygol o ddioddef camdriniaeth gan bartner yn ystod y deng mlynedd diwethaf nag unrhyw ystod oedran arall[25]. Canfu BCS 2009/10 bod 12.7% o fenywod a 6.2% o ddynion 16-19 oed wedi profi rhyw fath o drais domestig yn y flwyddyn ddiwethaf[26] (Smith et al, 2011[27]).

25 Holodd Arolwg Troseddau Prydain 2009/10 o bobl 22,000 oedd rhwng 16 a 59 oed yng Nghymru a Lloegr gwestiynau ar drais agos trwy fodwl i'w gwblhau gan yr unigolyn. Dangosodd amcangyfrifon o'r arolwg hwn bod menywod rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol o fod wedi dioddef camdriniaeth ddomestig yn y flwyddyn ddiwethaf o gymharu â grwpiau oedran eraill. Roedd yr arolwg hefyd yn dangos bod dynion rhwng 16 a 34 oed yn fwy tebygol o ddioddef camdriniaeth ddomestig na dynion hŷn.

26 Wrth gulhau i gamdriniaeth partner, mae'r gyfradd hon yn is ar y cyfan, ond mae'r ystod oedran 16-19 yn parhau i fod y grŵp dan risg mwyaf i fenywod, 7.3% o gymharu â 4.6%.

27 Smith, K. (gol), Coleman, K, Eder, S a Hall, P (2011). Homicides, firearm offences and intimate violence 2009/10 (Rhifyn atodol 2 i Crime in England and Wales 2009/10 Ail Argraffiad). Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref 01/11.

6. Amserlen

Bydd ymateb i'r ymatebion ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Swyddfa Gartref yn dilyn cwblhau'r cyfnod ymgynghori.

Os bydd unrhyw opsiwn i ehangu'r diffiniad yn codi fel y ffordd ddewisol ymlaen, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ac adrannau eraill y llywodraeth i ystyried ei ddatblygiad.

7. Gwybodaeth amdanoch chi

Faint oed ydych chi? (ticiwch un)

- ☐ Dan 16
- ☐ 16-17
- ☐ 18-24
- ☐ 25-29
- ☐ 30-44
- ☐ 45-60
- ☐ Dros 60

Beth yw eich rhyw? (ticiwch un)

- ☐ Gwryw
- ☐ Benyw

Ym mha ranbarth ydych chi? (ticiwch un)

- ☐ Gogledd Ddwyrain Lloegr
- ☐ Gogledd Orllewin Lloegr
- ☐ Swydd Efrog/Humber
- ☐ Dwyrain Canolbarth Lloegr
- ☐ Gorllewin Canolbarth Lloegr
- ☐ Cymru
- ☐ Dwyrain Anglia
- ☐ De Orllewin Lloegr
- ☐ De Ddwyrain Lloegr
- ☐ Llundain Fwyaf

A ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad neu fel aelod o'r cyhoedd?

- ☐ Ar ran sefydliad
- ☐ Fel aelod o'r cyhoedd

Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi/eich sefydliad orau?

- ☐ Dioddefydd trais domestig
- ☐ Heddlu
- ☐ Awdurdod lleol / Llywodraeth leol / Cyngor lleol
- ☐ Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
- ☐ Cynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaethol (MARAC)
- ☐ Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA)
- ☐ Sector elusennol a gwirfoddol
- ☐ Swyddfa Gartref
- ☐ Adran arall y llywodraeth

Dioddefydd

A ydych chi, neu gyfaill agos neu aelod o'r teulu, erioed wedi dioddef o drais domestig?

- ☐ Ydw, rydw i wedi bod yn ddioddefydd trais domestig
- ☐ Rwy'n adnabod cyfaill agos neu aelod o'r teulu sydd wedi dioddef trais domestig
- ☐ Dim un
- ☐ Gwell gennyf beidio dweud

Sut y clywsoch am yr ymgynghoriad hwn?

- ☐ Tafod lleferydd
- ☐ Erthygl yn y wasg genedlaethol
- ☐ Erthygl yn y wasg leol
- ☐ Erthygl yn y Diweddariad Newyddion Troseddau a Pholisi Plismona
- ☐ Teledu neu radio
- ☐ Cyfarfod wyneb i wyneb
- ☐ Gwefan y Swyddfa Gartref
- ☐ Gwefan Directgov
- ☐ Arall (nodwch isod)

Swyddfa Gartref

ISBN: 978-1-84987-629-2
Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref
© Hawlfraint y Goron 2011